CYNGOR GWYNEDD
CYNLLUN ADNEWYDDU A BUDDSODDIAD EIDDO CANOL DINAS BANGOR - TAFLEN WYBODAETH

Adran Economi a Chymuned

Gellir derbyn ffurflenni cais drwy gysylltu â Thîm Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd ar **01286 679231** neu drwy e-bost: **busnes@gwynedd.llyw.cymru** - rhaid i bob darpar ymgeisydd gysylltu â'r Tîm Cefnogi Busnes er mwyn trafod ei gynnig cyn cyflwyno cais.

CYMHWYSTER

Bydd y cynllun yn darparu arian llenwi-bwlch (grantiau a benthyciadau) ar gyfer perchnogion a phreswylwyr adeiladau masnachol i wella tu blaen adeiladau a dod â gofod masnachol gwag yn ôl i ddefnydd buddiol. Fel y cyfryw, bydd yn targedu eiddo gwag, heb ei ddefnyddio neu diolwg yn ardaloedd masnachol Canol Dinas Bangor, i ysgogi buddsoddiad, cyfleoedd cyflogaeth a chyfrannu at fywiogrwydd yr ardal.

Mae cynigion cymwys yn cynnwys:

- Atgyweiriadau sylweddol a strwythurol i adeiladau mewn cyflwr gwael
- Ailosod nodweddion pensaernïol sydd wedi'u colli neu eu difrodi sydd o bwysigrwydd hanesyddol i gymeriad ac edrychiad yr ardal
- Gwaith adnewyddu angenrheidiol i ddod â gofod masnachol yn ôl i ddefnydd buddiol.

GWYBODAETH BELLACH

Yn y mwyafrif o achosion, bydd y gefnogaeth yn cynnwys cymysgedd o gyllid grant nad oes angen ei ad-dalu a chyllid busnes y bydd angen ei ad-dalu. Bydd yr elfen i'w had-dalu yn isafswm o 25% ond fe all fod yn hyd at 100%, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau.

Bydd y benthyciadau yn ddi-log. Codir un ffi weinyddol unwaith ac am byth o hyd at 15% ar gyfer costau cyfreithiol a gweinyddol, ac ar gyfer y ffactor risg. Y cyfnod hiraf a geir i ad-dalu'r benthyciad yw 5 mlynedd.

Os yn berthnasol, bydd pob cais yn cael ei asesu a'i werthuso'n ariannol gan ymgynghorwyr ariannol annibynnol wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd.

Bydd angen cefnogi'r cais gyda'r dogfennau a restrir ar y Ffurflen Gais.

Mae angen arwystl cyfreithiol dros yr eiddo i sicrhau'r benthyciad, a chael prisiad proffesiynol ohono.

Gellir defnyddio cronfeydd ariannol eraill ar y cyd â'r benthyciad, cyn belled eu bod yn ariannu gwaith gwahanol.

Gallai ceisiadau fod yn amodol ar reoliadau Cymorth Gwladol ac rydym yn neilltuo'r hawl i ofyn am ragor o wybodaeth ynglŷn â hyn.

Mewn achosion ble mae pwrpas y benthyciad yn cynnwys neu'n ymwneud â darparu gwasanaethau neu ddeunyddiau ysgrifenedig (yn cynnwys arwyddion), rhaid i'r deunydd fod yn y Gymraeg a'r Saesneg, os nad yw'n afresymol neu'n anghymesur gwneud hynny.

Argymhellir bod pob darpar ymgeisydd yn dilyn y canllawiau a nodir yn nogfen canllawiau dylunio a datblygiadau ynni effeithiol Canol Dinas Bangor.

Bydd penderfyniad Panel y Gronfa Fenthyciadau yn derfynol.

Mae canllawiau manwl pellach ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd:

www.gwynedd.llyw.cymru/cymorthariannol

bid

CYNGOR DINAS BANGOR CITY COUNCIL

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

GWYNEDD COUNCIL
BANGOR CITY CENTRE PROPERTY RENOVATION AND INVESTMENT SCHEME - INFORMATION GUIDE

Economy and Community Department

Application forms can be obtained by contacting the Gwynedd Council Business Support Team on **01286 679231** or by e-mail: **business@gwynedd.llyw.cymru** - all prospective applicants must contact the Business Support Team to discuss their proposal before submitting an application.

ELIGIBILITY

This scheme will provide gap funding (grants and loans) for commercial building owners and occupiers to enhance building frontages and bring vacant commercial floorspace back into beneficial use. As such, it will target vacant, under-utilised or unsightly properties within the commercial areas of Bangor City Centre, to stimulate investment, employment opportunities and contribute to the vitality of the area.

Eligible proposals are :

- Structural and other substantive repairs to buildings in poor condition
- Re-instatement of lost or damaged architectural features of importance to the historic character and appearance of the area
- Renovation works required to bring vacant commercial floor space back into beneficial use

FURTHER INFORMATION

Support in most cases will include a mix of non-repayable grant and repayable business finance. The repayable element will be a minimum of 25% but can be up to 100%, dependent on the circumstances.

Loans will be interest free. A one-off administration fee of up to 15% will be charged to cover legal and administrative costs, and to cover the risk factor. The maximum loan repayment period will be 5 years.

Where applicable, all loan applications will be financially assessed and evaluated by independent financial consultants appointed by Gwynedd Council.

All applications must be supported by documentation detailed in the Application Form.

A legal charge over the premises will be required to secure the loan, and a professional valuation obtained.

Other funding options can be used in conjunction with the loan as long as they are funding separate works.

Applications may be subject to State Aid regulations, and we reserve the right to request information regarding this.

Where the purpose of the loan includes or relates to the provision of services or written materials (including signage), they must be provided in Welsh and English, unless it would be unreasonable or disproportionate to do so.

It is recommended that all prospective applicants follow the guidelines noted within the Bangor City Centre design and energy efficiency development guideline documents.

The decision of the Loan Fund Panel will be final.

Further detailed guidelines are available on Gwynedd Council's website:
www.gwynedd.llyw.cymru/financialassistance

bid

CYNGOR DINAS BANGOR CITY COUNCIL

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL